# Cofrestrfa Tir EF

## Tystysgrif hunaniaeth unigolyn preifat

# ID3

**Os gall trawsgludwr gadarnhau eich hunaniaeth, llenwch ffurflen ID1.**

**RHYBUDD**

**Os ydych yn rhoi gwybodaeth mewn modd anonest neu'n gwneud datganiad y gwyddoch ei fod, neu a allai fod yn anwir neu'n gamarweiniol, ac yn bwriadu, trwy wneud hynny, gynnig mantais i chi neu rywun arall, neu achosi colled neu'r risg o golled i rywun arall, gallech fod yn cyflawni'r trosedd o dwyll o dan adran 1 o Ddeddf Twyll 2006, a'r uchafgosb ar gyfer hyn yw carchar o 10 mlynedd neu ddirwy ddiderfyn, neu'r ddau.**

**Gellir defnyddio'r ffurflen hon dim ond os oes gennych chi a'r sawl sy'n cadarnhau eich hunaniaeth basbort llawn y DU ac mae'r cadarnhäwr wedi eich adnabod am o leiaf blwyddyn.**

**Nid** oes yn rhaid ichi lenwi'r ffurflen hon os:

- yw gwir werth y tir y mae'ch cais yn cyfeirio ato yn £6,000 neu lai
- ydych yn delio â Chofrestrfa Tir EF yn rheolaidd ac rydym wedi rhoi llythyr ichi yn cadarnhau eich hunaniaeth ('llythyr cyfleuster')
- ydych yn cofrestru eich eiddo yn wirfoddol am y tro cyntaf ac mae gennych yr holl weithredoedd gwreiddiol
- ydych yn gwneud cais i gael morgais neu brydles (prydlesi o lai na 7 mlynedd fel arfer) wedi ei nodi ar y gofrestr

Dylech amgáu eich ffurflen ID3 wedi ei llenwi ynghyd â'ch cais i:

- gofrestru eiddo neu dir am y tro cyntaf, lle mae hyn yn orfodol
- ychwanegu manylion morgais (cofrestru pridiannau)
- tynnu ymaith manylion morgais (cofrestru rhyddhadau) os yw'r dystiolaeth ar bapur
- trosglwyddo eiddo neu dir i rywun arall, gan gynnwys newid ymddiriedolwyr
- ychwanegu neu dynnu ymaith manylion prydles (cofrestru neu ildio prydles).

Gallwch ddefnyddio'r ffurflen hon hefyd i ddarparu tystiolaeth o'ch hunaniaeth os:

- ydych wedi newid eich enw – trwy weithred newid enw, datganiad statudol neu ddatganiad o wirionedd
- ydych yn gweithredu fel atwrnai o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yng nghyfarwyddyd ymarfer 67: tystiolaeth hunaniaeth.

Rhaid ichi amgáu'r canlynol gyda'ch cais hefyd:

- copi o dudalen manylion personol eich pasbort
- copi o dudalen manylion personol pasbort y sawl sy'n cadarnhau eich hunaniaeth. (Lle bo'r cadarnhäwr yn cadarnhau hunaniaeth pobl eraill yn ogystal â'ch un chi, rhaid iddo ddarparu copi o'i dudalen manylion personol i bob person. Nid yw un copi ar gyfer pawb yn dderbyniol.)

**Peidiwch** ag anfon eich pasbort gwreiddiol atom gyda'ch cais.

Os yw unrhyw un sy'n ymwneud â thrafodiad, neu'r sawl sy'n anfon y cais i Gofrestrfa Tir EF, heb ei gynrychioli gan drawsgludwr, rhaid iddyn nhw gael eu hunaniaeth wedi ei chadarnhau hefyd.

### Yr hyn rydym yn ei wneud gyda'ch gwybodaeth

Rydym yn gofyn am y wybodaeth hon er mwyn diogelu yn erbyn twyll teitl cofrestredig. Lle nad yw ceisydd (neu bartïon i drafodiad) yn cael eu cynrychioli gan drawsgludwr neu lle collwyd neu dinistriwyd gweithredoedd teitl, mae'n bwysig cyflwyno tystiolaeth hunaniaeth er mwyn inni allu cofrestru'r trafodiad.

Mae Cofrestrfa Tir EF yn cydymffurfio â gofynion y deddfwriaeth diogelu data'r DU. Gall gadw a rhannu gwybodaeth gydag:

- adrannau eraill o'r llywodraeth
- cyrff gorfodi'r gyfraith a rheoleiddio, gan gynnwys sefydliadau gwrth-dwyll penodedig o dan adran 68 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2007

Mae hyn yn ein cynorthwyo i atal a chanfod troseddau, megis twyll teitl neu dwyll eiddo arall.

I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cofrestrfa Tir EF yn defnyddio data personol, gweler ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.

Ni fydd y wybodaeth yn y ffurflen hon ac mewn unrhyw dystiolaeth ategol ar gael i'r cyhoedd. Am ragor o wybodaeth gweler rheol 133 (archwilio a chopïo) Rheolau Cofrestru Tir 2003 ar GOV.UK.

## Cyn dechrau

Yn ychwanegol at y canllawiau canlynol, dylech hefyd gyfeirio at gyfarwyddyd ymarfer 67: tystiolaeth hunaniaeth.

Mae'r ffurflen hon mewn dwy ran. Rhaid ichi lenwi rhan 1 ac yna gofyn i'r sawl sy'n cadarnhau eich hunaniaeth (y 'cadarnhäwr') i lenwi rhan 2.

### Llenwi rhan 1:

I lenwi rhan 1 bydd angen y canlynol arnoch:

- eich enw llawn
- eich dyddiad geni
- manylion pob cyfeiriad lle rydych wedi byw yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, gan gynnwys y dyddiadau
- o leiaf un rhif ffôn cysylltu
- manylion y ceisiadau rydych yn eu gwneud
- rhif(au) teitl yr eiddo – fe gewch y wybodaeth hon os ydych yn chwilio am 'gwybodaeth eiddo' ar GOV.UK
- cyfeiriad yr eiddo y mae'ch cais yn cyfeirio ato
- dylid cynnwys unrhyw dystiolaeth i egluro newid enw neu amrywiad mewn enw ar draws gweithredoedd neu ddogfennau gyda'r ffurflen hunaniaeth hon

### Llenwi rhan 2:

Pan fyddwch wedi llenwi rhan 1, bydd yn rhaid i'ch hunaniaeth gael ei chadarnhau – gweler adran 2.1 am restr o gadarnhawyr derbyniol. Gallant godi tâl am gadarnhau eich hunaniaeth. Rhaid i'r sawl sy'n cadarnhau eich hunaniaeth gael pasbort dilys cyfredol y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw.

**Cadarnhau eich hunaniaeth**

Ni allwch chi a'r sawl sy'n cadarnhau eich hunaniaeth fod yn perthyn i'ch gilydd mewn unrhyw ffordd ac ni allwch fod yn rhan o'r un trafodiad chwaith. Er enghraifft, ni all rhywun sy'n gwerthu eiddo ac sydd hefyd yn un o'r unigolion wedi eu hawdurdodi i gadarnhau hunaniaeth gadarnhau hunaniaeth y sawl sy'n prynu'r eiddo.

Pan fyddwch yn cwrdd â'ch cadarnhäwr, bydd angen y canlynol arnoch:

- eich ffurflen ID3 wedi ei llenwi
- eich pasbort y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw

Rhaid i'r ddau ohonoch lofnodi'r ffurflen.

**Ni fydd eich cadarnhäwr yn gallu cadarnhau eich hunaniaeth os:**

- nad ydych wedi llenwi rhan 1 o'r ffurflen hon yn gywir neu'n llawn neu
- nad oes pasbort y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw gennych.

**Sylwer os nad yw eich cais mewn trefn, gan gynnwys os defnyddir y ffurflenni anghywir neu os yw'r ffurflen yn anghyflawn, efallai na fydd y cais yn cael ei dderbyn i'w gofrestru.**

## Rhan 1: I’w llenwi gennych chi

Dylech deipio eich atebion neu eu hysgrifennu mewn inc du ac mewn PRIF LYTHRENNAU.

Er enghraifft, Mr, Mrs, Miss neu Dr

**1.1 Teitl**

Gwnewch yn siwr eich bod yn rhoi eich enw cywir yma a’ch bod yn darparu tystiolaeth ar wahân i roi cyfrif am unrhyw amrywiadau yn eich enw ar draws ffurflenni neu ddogfennau.

**1.2 Enw(au) Cyntaf / Bedydd**

**1.3 Cyfenw / Enw Teuluol**

**1.4 Newid enw trwy weithred newid enw / datganiad statudol / datganiad o wirionedd**

☐ Newidiais fy enw trwy weithred newid enw / datganiad statudol / datganiad o wirionedd ar

☐ Nid wyf wedi newid fy enw trwy weithred newid enw / datganiad statudol / datganiad o wirionedd

**1.5 Dyddiad geni**

**1.6 Cyfeiriad presennol (gan gynnwys cod post)**

**1.7 Am faint ydych chi wedi byw yn y cyfeiriad hwn?**

**1.8 Rhestrwch unrhyw gyfeiriadau eraill lle rydych wedi byw yn ystod y pum mlynedd diwethaf – dylech gynnwys codau post a dyddiadau ‘o’ a ‘tan’**

**Rhaid** ichi ddarparu rhif ffôn. Os nad oes llinell dir gennych, rhowch ‘Amh’ a nodwch:

- rhif ffôn symudol personol
- rhif ffôn gwaith
- neu’r ddau

**1.9 Rhif ffôn tŷ (llinell dir)**

Rhif ffôn llinell dir: (gan gynnwys cod ardal)

**neu**

Ffôn symudol:

Ffôn gwaith: (gan gynnwys cod ardal, os nad yw’n ffôn symudol)

Rhowch fanylion pob math o gais sy'n gymwys, er enghraifft:

- cofrestru eiddo neu dir
- ychwanegu neu dynnu ymaith manylion morgais (cofrestru pridiannau a rhyddhadau)
- ychwanegu neu dynnu ymaith manylion prydles (cofrestru neu ildio prydles)
- trosglwyddo eiddo neu dir

**1.10 Math o gais**

**1.11 Rhif(au) teitl** os ydych yn ei wybod/os yw'n berthnasol

Dylech gynnwys yr holl gyfeiriadau y mae'r rhifau teitl yn adran 1.11 yn cyfeirio atynt.

**1.12 Cyfeiriad(au)** eiddo gan gynnwys cod post

Os ydych yn rhoi gwybodaeth mewn modd anonest neu'n gwneud datganiad y gwyddoch ei fod, neu a allai fod yn anwir neu'n gamarweiniol, ac yn bwriadu, trwy wneud hynny, gynnig mantais i chi neu rywun arall, neu achosi colled neu'r risg o golled i rywun arall, gallech fod yn cyflawni'r trosedd o dwyll o dan adran 1 o Ddeddf Twyll 2006, a'r uchafgosb ar gyfer hyn yw carchar o 10 mlynedd, dirwy ddiderfyn, neu'r ddau.

Tystiaf fod y wybodaeth a ddarparwyd gennyf yn y ffurflen hon yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred. Rwy'n awdurdodi Cofrestrfa Tir EF i wneud y chwiliadau a gwiriadau ychwanegol sy'n angenrheidiol i gadarnhau fy hunaniaeth.

Llofnodwyd: ___________________________________

Dyddiad: ________________________

**Rhaid i'r rhan hon o'r ffurflen gael ei llofnodi a'i dyddio ddim mwy na 3 mis cyn adeg cyflwyno'r cais cysylltiedig.**

## Rhan 2: I’w llenwi gan eich cadarnhäwr

**Gallwch gadarnhau hunaniaeth rhywun at ddiben cofrestru tir dim ond os oes pasbort llawn dilys cyfredol y DU gennych. Rhaid ichi roi copi o dudalen manylion personol eich pasbort i’r sawl rydych yn cadarnhau ei hunaniaeth hefyd.**

Teipiwch eich atebion neu ysgrifennwch nhw mewn inc du ac mewn PRIFLYTHRENNAU

**2.1 Am eich rôl**

**Rwyf yn:**

- ☐ Doctor Meddygol
- ☐ Deintydd
- ☐ Cyfrifydd Siartredig neu Ardystiedig
- ☐ Cynghorydd Ariannol rheoleiddiedig
- ☐ Aelod Seneddol
- ☐ Aelod o’r Senedd

Rhif cofrestru proffesiynol a chorff rheoleiddio (gweler Nodyn 2 isod):

Nodyn 1: Dim ond y proffesiynau a restrir yn 2.1 all gadarnhau hunaniaeth fel unigolyn nad yw’n drawsgludwr. **Rhaid** ichi dicio’r blwch priodol, a darparu eich rhif cofrestru proffesiynol a chorff rheoleiddio lle bo’n gymwys.

Nodyn 2: Mae rhif cofrestru proffesiynol a chorff rheoleiddio yn gymwys i bob proffesiwn ac eithrio Aelod Seneddol neu Aelod o’r Senedd.

**2.2 Rwyf wedi adnabod y sawl a enwir yn Rhan 1 am:**

- ☐ Blwyddyn
- ☐ Rhwng un a deg mlynedd
- ☐ Dros ddeg mlynedd

**2.3 Rwyf wedi gweld y dystiolaeth ganlynol:**

Rhaid ichi gadarnhau pasbort dilys y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw ar gyfer y ceisydd

Rhif pasbort | Dyddiad terfyn:

**2.4 Cadarnhau hunaniaeth**

☐ Rwyf wedi cadarnhau hunaniaeth yn bersonol

**2.5 Cadarnhau hunaniaeth**

**Rwyf i** (enw)

**o** (cyfeiriad)

Pasbort llawn dilys cyfredol

Rhif pasbort | Dyddiad terfyn:

**yn tystio bod**

(enw llawn yr unigolyn sy’n cael ei gadarnhau)

wedi dangos neu roi imi ei basbort dilys y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw rwyf wedi ei archwilio. Cadarnhaf fod y ffotograff pasbort yn debygrwydd gwir o’r unigolyn sydd wedi darparu’r dystiolaeth hon.

Tystiaf fy mod wedi rhoi copi o dudalen manylion personol fy mhasbort y DU i’r ceisydd.

Llofnodwyd_____________________________________ Dyddiad

**Rhaid i’r rhan hon o’r ffurflen gael ei llofnodi a’i dyddio ddim mwy na 3 mis cyn adeg cyflwyno’r cais cysylltiedig.**

© Hawlfraint y Goron (cyf: LR/HO) 11/24